



Llywodraeth Cymru

Dogfen Ymgynghori

Ymgynghoriad ar reoliadau dyddiadau tymhorau ysgol

Cynigion ar gyfer rheoliadau ar gyfer y broses ymgynghori i'w dilyn cyn i Weinidogion Cymru ddefnyddio eu pwerau cyfarwyddo mewn perthynas â dyddiadau tymhorau ysgol

Dyddiad cyhoeddi: **4 Rhagfyr 2013**

Camau i'w cymryd: Ymatebion erbyn **21 Chwefror 2014**

Ymgynghoriad ar reoliadau dyddiadau tymhorau ysgol

- Trosolwg** Mae'r rheoliadau arfaethedig hyn yn rhan o gynlluniau Llywodraeth Cymru i gysoni dyddiadau tymhorau ysgol ledled Cymru, fel y nodir yn y Bil Addysg (Cymru).
- Mae Llywodraeth Cymru yn awyddus i wneud rheoliadau ar gyfer cynnal proses ymgynghori cyn i Weinidogion Cymru ddefnyddio eu pwerau cyfarwyddo mewn perthynas â phennu dyddiadau tymhorau ysgol ar gyfer unrhyw ysgol a gynhelir yng Nghymru.
- Mae'r ddogfen ymgynghori hon yn gyfle i chi gyflwyno eich sylwadau am y cynigion hyn.
- Sut i ymateb** Dylid e-bostio/postio ymatebion i'r ymgynghoriad hwn i'r cyfeiriad isod i gyrraedd erbyn **21 Chwefror 2014** fan hwyraf.
- Rhagor o wybodaeth a dogfennau cysylltiedig** Gellir gwneud cais am fersiynau o'r ddogfen hon mewn print bras, mewn Braille neu mewn ieithoedd eraill.
- Mae'r dogfennau ymgynghori ar gael ar wefan Llywodraeth Cymru yn www.cymru.gov.uk/ymgyngoriadau
- Manylion cysylltu** I gael rhagor o wybodaeth:
Y Gangen Llywodraethu Ysgolion
Yr Is-adran Rheolaeth ac Effeithiolrwydd Ysgolion
Yr Adran Addysg a Sgiliau
Llywodraeth Cymru
Parc Cathays
Caerdydd
CF10 3NQ
- e-bost: SMED2@cymru.gsi.gov.uk
Ffôn: 029 2082 5485
Ffacs: 029 2080 1044

Diogelu data Sut y byddwn yn defnyddio'r farn a'r wybodaeth a roddwch inni

Bydd unrhyw ymateb a anfonwch atom yn cael ei weld yn llawn gan staff Llywodraeth Cymru sy'n gweithio ar y materion y mae'r ymgynghoriad hwn yn ymdrin â nhw. Mae'n bosibl y bydd aelodau eraill o staff Llywodraeth Cymru yn gweld yr ymateb hefyd, er mwyn eu helpu i gynllunio ymgynghoriadau ar gyfer y dyfodol.

Mae Llywodraeth Cymru yn bwriadu cyhoeddi crynodeb o'r ymatebion i'r ddogfen hon. Mae'n bosibl hefyd y byddwn yn cyhoeddi'r ymatebion yn llawn. Fel arfer, bydd enw a chyfeiriad (neu ran o gyfeiriad) yr unigolyn neu sefydliad a anfonodd yr ymateb yn cael eu cyhoeddi gyda'r ymateb. Mae hynny'n helpu i ddangos bod yr ymgynghoriad wedi'i gynnal yn briodol. Os nad ydych yn dymuno i'ch enw a'ch cyfeiriad gael eu cyhoeddi, rhwch wybod inni yn ysgrifenedig wrth anfon eich ymateb. Byddwn wedyn yn cuddio'ch manylion.

Mae'n bosibl y bydd yr enwau a'r cyfeiriadau y byddwn wedi'u cuddio yn cael eu cyhoeddi'n ddiweddarach, er nad yw hynny'n debygol o ddigwydd yn aml iawn. Mae Deddf Rhyddid Gwybodaeth 2000 a Rheoliadau Gwybodaeth Amgylcheddol 2004 yn caniatáu i'r cyhoedd gael gweld gwybodaeth a gedwir gan lawer o gyrff cyhoeddus, gan gynnwys Llywodraeth Cymru. Mae hynny'n cynnwys gwybodaeth sydd heb ei chyhoeddi. Fodd bynnag, mae'r gyfraith hefyd yn caniatáu i ni gadw gwybodaeth yn ôl dan rai amgylchiadau. Os bydd unrhyw un yn gofyn am gael gweld gwybodaeth a gadwyd yn ôl gennym, bydd rhaid inni benderfynu a ydym am ei rhyddhau ai peidio. Os bydd rhywun wedi gofyn inni beidio â chyhoeddi ei enw a'i gyfeiriad, bydd hynny'n ffaith bwysig i ni ei chadw mewn cof. Fodd bynnag, fe allai fod rheswm pwysig dros orfod datgelu enw a chyfeiriad unigolyn, er ei fod wedi gofyn i ni beidio â'u cyhoeddi. Byddem yn cysylltu â'r unigolyn ac yn gofyn am ei farn cyn gwneud unrhyw benderfyniad terfynol i ddatgelu'r wybodaeth.

Cynnwys

1.	Rhagair y Gweinidog	1
2.	Cyflwyniad	2
3.	Cefndir deddfwriaethol y rheoliadau arfaethedig	3
4.	Beth yw ein cynigion ar gyfer y rheoliadau?	4
5.	Cwestiynau'r ymgynghoriad	8

1. Rhagair y Gweinidog

Yn rhinwedd fy swydd fel y Gweinidog Addysg a Sgiliau, rwy'n ymwybodol o'r anawsterau y mae nifer o deuluoedd sy'n gweithio'n galed ledled Cymru yn eu hwynebu o ganlyniad i amrywiadau yn nyddiadau tymhorau ysgol, ac felly, gwyliau'r ysgol.

Er mwyn rhoi sylw i'r mater hwn, mae newidiadau deddfwriaethol i'r modd y caiff dyddiadau tymhorau ysgol eu pennu wedi'u cynnwys yn y Bil Addysg (Cymru) y bu i mi ei gyflwyno gerbron Cynulliad Cenedlaethol Cymru ar 1 Gorffennaf 2013.

Mae Cynulliad Cenedlaethol Cymru wrthi'n craffu ar y "Bil" ar hyn o bryd, ac yn amodol ar ei basio a derbyn Cydsyniad Brenhinol, bydd y newidiadau hyn o fantais i bobl Cymru. Ymhlith y newidiadau, mae cynlluniau i mi gael pwerau i ddweud wrth awdurdodau lleol a chyrrff llywodraethu ysgolion gwirfoddol a gynorthwyir ac ysgolion sefydledig beth ddylai eu dyddiadau tymhorau ysgol fod.

Serch hynny, cyn eu cyfarwyddo yn y modd hwn, byddai angen ymgynghori'n briodol ar y dyddiadau tymhorau yr wyf yn cynnig eu pennu. Mae'r Bil yn cynnwys y pŵer i wneud rheoliadau a fydd yn caniatáu imi wneud darpariaeth ar gyfer sut y bydd ymgynghoriadau o'r fath yn cael eu cynnal.

Mae'r cynigion ar gyfer y rheoliadau hyn wedi'u cyhoeddi er mwyn ymgynghori arnynt. Rwy'n awyddus i glywed barn pob rhanddeiliad allweddol ar y syniadau a gaiff eu cyflwyno yn yr ymgynghoriad hwn. Bydd eich cyfraniadau'n helpu i sicrhau bod y set o reoliadau a roddir ar waith yng Nghymru yn un briodol.



Huw Lewis AC
Y Gweinidog Addysg a Sgiliau

2. Cyflwyniad

- 2.1 Cyflwynwyd y Bil Addysg (Cymru) ("y Bil") gerbron Cynulliad Cenedlaethol Cymru ar 1 Gorffennaf 2013.
- 2.2 Bydd y Bil, os bydd yn pasio proses graffu'r Cynulliad ac wedyn yn derbyn Cydsyniad Brenhinol, gan ddod yn gyfraith, yn gwneud nifer o newidiadau pwysig i'r trefniadau deddfwriaethol presennol yng nghyswllt sut caiff dyddiadau tymhorau ysgol eu pennu ar gyfer pob ysgol a gynhelir yng Nghymru.
- 2.3 Rhwng 3 Medi 2012 a 26 Tachwedd 2012, cynhaliwyd ymgynghoriad 12 wythnos ar y cynigion yn y Bil sy'n ymwneud â dyddiadau tymhorau ysgol. Cewch weld crynodeb o'r ymatebion yn:
<http://wales.gov.uk/consultations/education/schooltermdates/?skip=1&language=cy>.
- 2.4 Yn sgil un o'r newidiadau i'r deddfwriaeth, bydd gan Weinidogion Cymru y pŵer i ddweud wrth awdurdodau lleol a chyrff llywodraethu ysgolion gwirfoddol a gynorthwyir ac ysgolion sefydledig beth ddylai eu dyddiadau tymhorau ysgol fod. Felly os na fydd y cyrff hyn wedi gallu cytuno ar ddyddiadau tymhorau, neu os bydd angen newid y dyddiadau tymhorau y maent wedi cytuno arnynt, bydd Gweinidogion Cymru yn gallu dweud wrth awdurdodau lleol a chyrff llywodraethu ysgolion gwirfoddol a gynorthwyir ac ysgolion sefydledig beth ddylai eu dyddiadau tymhorau ysgol fod.
- 2.5 Cyn i Weinidogion Cymru ddefnyddio eu pŵer cyfarwyddo, o dan ddarpariaethau'r Bil rhaid ymgynghori mewn modd sy'n briodol ym marn y Gweinidogion. Yn ogystal, mae'r Bil yn cynnig rhoi'r pŵer i Weinidogion Cymru wneud rheoliadau i ddarparu ar gyfer sut y bydd yr ymgynghoriadau'n cael eu cynnal.
- 2.6 Drwy wneud rheoliadau ar gyfer y broses ymgynghori, bydd y broses y dylid ei dilyn yn fwy clir i bartïon â buddiant.

3. Cefndir deddfwriaethol y rheoliadau arfaethedig

- 3.1 Mae Llywodraeth Cymru yn cyflwyno newidiadau i'r trefniadau deddfwriaethol presennol ar gyfer pennu dyddiadau tymhorau er mwyn sicrhau bod dyddiadau tymhorau ysgol yr un fath ymhob ysgol a gynhelir yng Nghymru, gydag amrywiadau achlysurol yn y dyddiadau dim ond pan fydd modd cyfiawnhau hynny.
- 3.2 Bydd y newidiadau arfaethedig yn golygu bod awdurdodau lleol a chyrff llywodraethu ysgolion gwirfoddol a gynorthwyir ac ysgolion sefydledig yn cadw'r ddyletswydd i bennu dyddiadau tymhorau ysgol. Yn ogystal â hynny, bydd dyletswydd newydd yn cael ei gosod arnynt i gydweithio â'i gilydd wrth bennu dyddiadau tymhorau, fel bod y dyddiadau a gaiff eu pennu naill ai'r un fath neu mor debyg â phosibl.
- 3.3 Mae Llywodraeth Cymru yn gobeithio y bydd hyn yn arwain at bennu'r un dyddiadau tymhorau ar gyfer pob ysgol a gynhelir yng Nghymru. Fodd bynnag, er gwaethaf ymdrechion gorau awdurdodau lleol a chyrff llywodraethu ysgolion, mae'n bosibl na fyddant yn gallu cytuno ar ddyddiadau tymhorau bob amser. Os bydd hynny'n digwydd, neu os bydd angen diwygio'r dyddiadau tymhorau y cytunwyd arnynt, mae'r Bil yn cynnig y bydd gan Weinidogion Cymru y pŵer i ymyrryd a dweud wrth awdurdodau lleol a chyrff llywodraethu ysgolion gwirfoddol a gynorthwyir ac ysgolion sefydledig beth ddylai eu dyddiadau tymhorau ysgol fod.
- 3.4 Bydd y newidiadau arfaethedig yn golygu hefyd y bydd Gweinidogion Cymru yn gallu newid dyddiadau tymhorau ysgol sydd wedi eu cysoni ar gyfer ardaloedd neu ysgolion penodol neu ar gyfer holl ysgolion Cymru.
- 3.5 Mae'n debygol mai dim ond o dan amgylchiadau prin iawn y byddai'r Gweinidogion yn defnyddio eu pwerau cyfarwyddo i newid dyddiadau tymhorau ysgol sydd wedi eu cysoni, a dim ond pan fyddai modd iddynt gyfiawnhau hynny.
- 3.6 Cyn defnyddio eu pŵer cyfarwyddo, byddai'n rhaid i Weinidogion Cymru ymgynghori mewn modd sy'n briodol yn eu barn nhw.
- 3.7 Mae'r Bil yn rhoi pŵer i Weinidogion Cymru wneud rheoliadau sy'n eu galluogi i wneud unrhyw ddarpariaeth bellach ar gyfer y broses ymgynghori y mae ei hangen yn eu tyb nhw. Gallai hynny gynnwys pennu materion megis:
 - hyd yr ymgynghoriad;
 - pwy ddylai gymryd rhan ynddo;
 - y dulliau ymgynghori y dylid eu defnyddio.

4. Beth yw ein cynigion ar gyfer y rheoliadau?

Lle nad yw dyddiadau tymhorau wedi eu cysoni gan awdurdodau lleol a chyrrff llywodraethu ysgolion gwirfoddol a gynorthwyir ac ysgolion sefydledig

4.1 Mae'r Bil yn gosod dyletswydd ar awdurdodau lleol i hysbysu Gweinidogion Cymru am ddyddiadau tymhorau pob ysgol a gynhelir yn eu hardal. Cynigir y bydd angen gwneud hynny erbyn y diwrnod gwaith olaf ym mis Awst, ddwy flynedd lawn cyn dechrau'r flwyddyn ysgol dan sylw. Er enghraifft, bydd yn rhaid rhoi dyddiadau tymhorau ar gyfer y flwyddyn ysgol 2016-17 gael eu rhoi erbyn dydd Gwener 29 Awst 2014¹.

4.2 Y gobaith yw mai'r un fydd y dyddiadau tymhorau hyn ledled Cymru, ond serch hynny, mae'n bosibl na fydd awdurdodau lleol a chyrrff llywodraethu ysgolion gwirfoddol a gynorthwyir ac ysgolion sefydledig wedi gallu cytuno ar ddyddiadau tymhorau er gwaethaf eu hymdrechion gorau.

4.3 Os bydd hynny'n digwydd, mae'n debygol y byddai Gweinidogion Cymru yn ystyried defnyddio eu pwerau i sicrhau bod dyddiadau tymhorau'n cael eu cysoni ledled Cymru ac felly bydd angen ymgynghori ynghylch eu cynigion.

4.4 Mewn achosion o'r fath, cynigir bod y rheoliadau'n darparu ar gyfer:

- i. hyd yr ymgynghoriad. Cynigir y dylid cynnal ymgynghoriad 12 wythnos;
- ii. pwy ddylai gymryd rhan ynddo. Cynigir bod yn rhaid ymgynghori â chyfarwyddwyr addysg awdurdodau lleol, corff llywodraethu pob ysgol wirfoddol a gynorthwyir ac ysgol sefydledig, pob awdurdod esgobaethol, cyrrff llywodraethu sampl o 10% o ysgolion a gynhelir, undebau llafur yr holl staff addysgu a staff cymorth, a chyrrff â "buddiant" megis Gwasanaeth Addysg yr Eglwys Gatholig a'r Comisiynydd Plant;
- iii. y dulliau ymgynghori y dylid eu defnyddio. Cynigir bod yr ymgynghoriad yn cael ei gynnal yn electronig a'i gyhoeddi ar wefan Llywodraeth Cymru, gyda'r holl ymgynghoreion y mae'n orfodol eu cynnwys yn cael gwybod am lansiad yr ymgynghoriad drwy e-bost. Yn ogystal â hynny, rhoddir gwybod am lansiad yr ymgynghoriad yn y cylchlythyr electronig ar gyfer ysgolion – sef DYSG, neu Dysg Cyn 11 yn achos y cylchlythyr ar gyfer ysgolion sefydledig ac ysgolion cynradd – a gyhoeddir ar wefan Dysgu Cymru.

¹ Cafodd y cynnig hwn ei ddisgrifio yn yr ymgynghoriad ar y Rheoliadau ar gyfer Dyddiadau Tymhorau Ysgol, sydd i'w weld yn <http://wales.gov.uk/consultations/education/;jsessionid=3C90E9178AFA81AB7A9F57ECB77E0D6E?skip=1&lang=cy>

Lle bydd dyddiadau tymhorau wedi eu cysoni, ond bod Gweinidogion Cymru o'r farn y dylid newid y dyddiadau ar gyfer rhai ysgolion neu ar gyfer pob ysgol.

4.5 Nid yw pŵer cyfarwyddo Gweinidogion Cymru yn y Bil yn gyfyngedig i achosion lle nad yw awdurdodau lleol a chyrrff llywodraethu ysgolion gwirfoddol a gynorthwyr ac ysgolion sefydledig wedi llwyddo i gysoni dyddiadau tymhorau. Y rheswm am hynny yw'r angen i ganiatáu i'r Gweinidogion newid dyddiadau tymhorau sydd wedi eu cysoni ar gyfer ardal neu ysgolion penodol, neu i ganiatáu iddynt newid y dyddiadau ar gyfer holl ysgolion Cymru.

4.6 Credir mai dim ond mewn achosion prin iawn y byddai angen newid dyddiadau tymhorau ysgol sydd wedi eu cysoni, a dim ond pan fyddai modd cyfiawnhau hynny.

4.7 Fodd bynnag, gan fod y broses o bennu dyddiadau tymhorau ysgol yn digwydd ymhell cyn dechrau'r flwyddyn ysgol berthnasol, gallai fod angen hyblygrwydd o'r fath er mwyn ymateb i amgylchiadau nad oeddent yn hysbys pan gafodd y dyddiadau eu cysoni.

4.8 Er enghraifft, mae'n bosibl bod dyddiadau tymhorau ysgol wedi eu cysoni cyn i gynlluniau i gynnal digwyddiad chwaraeon pwysig neu ddigwyddiad cenedlaethol arall gael eu cyhoeddi. Er bod y rhan fwyaf o ddigwyddiadau pwysig fel hyn yn cael eu cynllunio rai blynyddoedd ymlaen llaw, gallai newid yn yr amgylchiadau olygu bod y lleoliad yn gallu newid cyn lleied â blwyddyn cyn y digwyddiad. Hefyd gallai rhywbeth ddigwydd na chafodd ei ragweld, megis trychineb Aberfan, a gallai hynny arwain at gyfnod o alaru gyda llai na mis neu ddau o rybudd.

4.9 Gallai cyfnod o alaru neu ddigwyddiad tebyg fod yn berthnasol i Gymru gyfan, neu gallai digwyddiad fod yn gyfyngedig i ardal benodol, megis yn achos Cwpan Ryder. Os bydd digwyddiad chwaraeon pwysig yn cael ei gynnal mewn ardal benodol, gall fod yn broblem cael nifer mawr o blant yn teithio yn ôl ac ymlaen i'r ysgol ar yr un pryd ag y mae nifer mawr o bobl yn teithio yn ôl ac ymlaen i'r digwyddiad. Gallai roi gormod o straen ar y seilwaith trafnidiaeth, mewn rhai achosion prin.

4.10 Weithiau, mae sefyllfa argyfyngus yn codi, megis epidemig o'r frech goch neu'r ffliw. Pe bai'r sefyllfa'n ddigon difrifol, mae'n bosibl mai'r peth gorau fyddai ystyried newid dyddiadau tymhorau ysgol naill ai ar gyfer ardal benodol (os yw'r sefyllfa yn un leol) neu ar gyfer Cymru gyfan. Mewn sefyllfa frys o'r fath byddai Gweinidogion Cymru yn gallu rhoi cyfarwyddyd i ddod â thymor yr ysgol i ben yn gynt na'r bwriad, fel nad yw plant yr ardal yn gorfod bod yn yr ysgol ac felly nad fydd y clefyd mor debygol o ledaenu yn eu plith.

4.11 Hefyd mae'n bosibl y byddai angen y pŵer hwn i ymdopi â sefyllfa megis lle mae awdurdodau lleol a chyrrff llywodraethu ysgolion gwirfoddol a gynorthwyr ac ysgolion sefydledig wedi cytuno ar ddyddiadau eithriadol o gynnar ar gyfer gwyliau hanner tymor yr hydref, ond bod yna dystiolaeth y

byddai o fantais i'r disgyblion pe bai'r hanner tymor yn hwyrach er mwyn i'r cyfnodau cyn ac ar ôl y gwyliau fod yn fwy cyfartal. Mewn sefyllfa o'r fath, gallai Gweinidogion Cymru ystyried newid dyddiadau tymhorau ysgol fel bod y gwyliau hanner tymor yn digwydd wythnos neu fwy yn ddiweddarach.

4.12 Oherwydd yr amgylchiadau amrywiol a allai beri i Weinidogion Cymru ystyried defnyddio eu pwerau i newid dyddiadau tymhorau sydd wedi eu cysoni, ni fydd yn bosibl i'r rheoliadau fynnu bod yr un broses ymgynghori yn cael ei dilyn bob tro. Y rheswm am hynny yw na fyddai ymgynghoriad 12 wythnos yn bosibl mewn sefyllfaoedd lle mai dim ond ychydig o fisoedd neu wythnosau o rybudd y mae Llywodraeth Cymru yn eu cael cyn i ddigwyddiad chwaraeon neu ddigwyddiad cenedlaethol gael ei gynnal. Mewn achosion lle mae sefyllfa argyfyngus wedi codi, megis epidemig o'r frech goch, mae'n debygol mai dim ond cyfnod byr o rybudd y gallai'r Llywodraeth ei roi cyn newid y dyddiadau tymhorau.

4.13 Er mwyn iddi fod yn bosibl defnyddio'r broses ymgynghori ragnodedig i ymateb i bob sefyllfa neu ddigwyddiad a allai godi, cynigir y dylai'r dulliau ymgynghori a ddewisir adlewyrchu hyd y rhybudd a geir mewn perthynas ag unrhyw ddigwyddiad neu sefyllfa.

4.14 Mae'r tabl isod yn dangos y cynigion ar gyfer y broses ymgynghori, yn ôl hyd y cyfnod o rybudd a roddir i Lywodraeth Cymru:

<u>Hyd y rhybudd</u>	<u>Y Cyfnod Ymgynghori</u>	<u>Pwy ddylai gymryd rhan yn yr ymgynghoriad</u>	<u>Dulliau ymgynghori</u>
Blwyddyn neu ragor	O leiaf 12 wythnos	Y personau/cyrff a nodir ym mharagraff 4.4ii	Dulliau electronig fel y'u nodir ym mharagraff 4.4iii
Blwyddyn neu lai ond mwy na 6 mis	O leiaf 6 wythnos	Y personau/cyrff a nodir ym mharagraff 4.4ii	Dulliau electronig fel y'u nodir ym mharagraff 4.4iii
6 mis neu lai ond mwy na 3 mis	O leiaf 3 wythnos	Y personau/cyrff a nodir ym mharagraff 4.4ii	Dulliau electronig fel y'u nodir ym mharagraff 4.4iii
3 mis neu lai ond mwy na 4 wythnos	O leiaf 1 wythnos	Y personau/cyrff a nodir ym mharagraff 4.4ii	Dulliau electronig fel y'u nodir ym mharagraff 4.4iii
4 wythnos neu lai	Yn ôl disgrisiwn Gweinidogion Cymru	Yn ôl disgrisiwn Gweinidogion Cymru	Yn ôl disgrisiwn Gweinidogion Cymru

4.15 Gan y byddai rhybudd o lai na 4 wythnos yn cynnwys sefyllfaoedd brys sy'n amrywio o ran pa mor ddifrifol ydynt, megis achosion o'r frech goch neu'r ffliw, ni fyddai'n ymarferol ceisio pennu hyd yr ymgynghoriad, nac unrhyw ofynion ymgynghori eraill, mewn rheoliadau. Oherwydd hynny, y bwriad yw

dibynnu ar ddisgresiwn Gweinidogion Cymru pan mai dim ond rhybudd byr y gellir ei roi.

4.16 Dylid cofio y bydd Gweinidogion Cymru dan ddyletswydd cyfraith gyhoeddus i weithredu mewn modd rhesymol wrth ymarfer eu disgresiwn. Er enghraifft, pe rhoddid rhybudd o fwy na 3 wythnos, ni fyddai'n rhesymol cynnal ymgynghoriad o 24 awr na pheidio â rhoi gwybod i awdurdodau lleol a chyrrff llywodraethu ysgolion gwirfoddol a gynorthwyr ac ysgolion sefydledig am y newidiadau arfaethedig i ddyddiadau tymhorau.

4.17 Yn olaf, o dan y cynigion hyn mai'r drefn arferol fyddai cynnal ymgynghoriad ledled Cymru, hyd yn oed mewn achosion lle na fyddai'r newidiadau arfaethedig i ddyddiadau tymhorau ond yn berthnasol i ardal neu ysgolion penodol. Er enghraifft, gallai digwyddiad chwaraeon megis Cwpan Ryder olygu cynnig newidiadau i ddyddiadau tymhorau sy'n gyfyngedig i bellter o 20 milltir i leoliad y digwyddiad.

4.18 Mae Llywodraeth Cymru o'r farn y byddai'n arferol ac yn briodol cynnal ymgynghoriad ledled Cymru o dan amgylchiadau o'r fath. Mae hynny oherwydd y byddai Gweinidogion Cymru yn cynnig newid dyddiadau tymhorau a oedd wedi eu cysoni a'u cymeradwyo gan Gymru gyfan.

5. Cwestiynau'r ymgynghoriad

Yng nghyswllt y cynigion hyn am reoliadau ar gyfer ymgynghori ar ddyddiadau tymhorau ysgol, byddai Llywodraeth Cymru'n croesawu eich ymateb i'r cwestiynau canlynol. Defnyddiwch y templed sydd wedi'i ddarparu yn yr ymgynghoriad hwn i gofnodi eich atebion.